



Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i

Ymgynghoriad â'r Swyddfa Gartref: [Trwyddedu ar gyfer Gwerthu Cyllyll](#)- Wedi
cau 24/2026

Ymateb wedi'i gyflwyno 24/02/2026 drwy ffurflen ar-lein

Maint a chwmpas y farchnad

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth eisiau datblygu amcangyfrif o faint a chwmpas y farchnad.

1. Ydych chi'n gwerthu cyllyll neu eitemau llafnog eraill?

Nac ydw

2. Os ateboch YDW uchod, ydych chi'n ystyried eich hun yn (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- Gwerthwr ar-lein
- Gwerthwr wyneb yn wyneb
- Gwerthwr preifat/ail-law
- Mewnforiwr
- Arall (manylwch)

3. Os ydych chi'n gwerthu cyllyll neu eitemau llafnog, pa mor fawr yw eich busnes?

- Bach (1-10 o weithwyr)
- Canolig (11-50 o weithwyr)
- Mawr (dros 51 o weithwyr)

Trwyddedu ar gyfer Gwerthwyr Cyllyll

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig y dylai pob gwerthwr, gan gynnwys manwerthwyr a gwerthwyr preifat, ddal trwydded.

4. A ddylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog ddal trwydded?

Dylai



5. A ddylai fod yn ofynnol i werthwyr preifat sy'n gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog ddal trwydded?

Dylai

Hyd y Drwydded

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig y dylai trwydded fod yn ddilys am 3 blynedd cyn bod angen ei hadnewyddu.

6. Am ba hyd ydych chi'n meddwl y dylai trwydded gwerthwr neu fewnforiwr fod yn ddilys cyn bod angen ei hadnewyddu?

- **3 blynedd**
- 5 mlynedd
- 10 mlynedd
- Arall

Trwyddedu ar gyfer Mewnforwyr Cyllyll

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig pedwar opsiwn ar gyfer pwy ddylai allu cael trwydded, ac felly mewnfario cyllyll ac eitemau llafnog.

7. Pwy ddylai gorfod dal trwydded i fewnfario cyllyll ac eitemau llafnog?

- Mewnforiwr awdurdodedig yn y DU
- Manwerthwyr, heb gynnwys unigolion preifat
- **Unrhyw un – gan gynnwys gwerthwyr preifat ac unigolion sy'n mewnfario eitemau at ddefnydd personol**
- Arall

Effeithiau

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth eisiau datblygu dealltwriaeth o effaith ddisgwyliedig y ddeddfwriaeth hon ar werthwyr a mewnforwyr.

8. Ydych chi'n rhagweld y bydd y mesur hwn yn effeithio ar eich busnes/gweithrediadau busnes?

Ydw



Rhowch resymau (uchafswm o 250 gair)

Rydym yn ymateb fel rhwydwaith ar ran sawl aelod-sefydliad yng Nghymru, gan gynnwys heddluoedd, cynghorau, gwasanaethau tân ac achub, a phartneriaid eraill sydd â chyfrifoldebau statudol a strategol dros ddiogelwch cymunedol.

Yn gyffredinol, gobeithio y byddai fframwaith trwyddedu ar gyfer gwerthu neu fewnforio cyllyll ac eitemau llafn yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau trwy leihau hygyrchedd a darparu canllawiau ac atebolrwydd cliriach ar gyfer rheoleiddio gwerthiannau. Os yw wedi'i gynllunio'n dda ac adnoddau digonol, mae gan y mesur y potensial i gefnogi lleihau niwed a chyfrannu at ymdrechion ehangach i atal trais difrifol.

Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddai cyflwyno fframwaith trwyddedu yn cael goblygiadau gweithredol i bartneriaid sector cyhoeddus. Yn benodol, mae'n debygol o roi pwysau amser, capasiti ac adnoddau ychwanegol ar dimau Safonau Masnach a heddluoedd, gan gynnwys mewn perthynas â gweinyddu, monitro cydymffurfiaeth, a gweithgarwch gorfodi. Byddai angen ystyried yr effeithiau hyn yn ofalus fel rhan o gynllunio gweithredu.

Felly, byddem yn argymhell yn gryf bod unrhyw gynnig yn cyd-fynd â chymorth ariannol priodol a chynaliadwy i'r awdurdodau sy'n gyfrifol am gyflawni a gorfodi, er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r mesur yn effeithiol ac yn cyfrannu at ganlyniadau diogelwch cymunedol gwirioneddol, yn hytrach na chreu beichiau ychwanegol heb eu hariannu.

Cyffredinol

Os oes gennych unrhyw syniadau eraill ar y cynigion, defnyddiwch y blwch ateb hwn.

9. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Oes

Rhowch resymau (uchafswm o 250 gair)

O safbwynt diogelwch cymunedol, byddai fframwaith trwyddedu ar gyfer gwerthu neu fewnforio cyllyll ac eitemau llafn yn cael ei gefnogi mewn egwyddor, ond dylid ei ddeall fel un elfen o ymateb ehangach, system gyfan i drais difrifol. Mae trwyddedu ar wahân yn annhebygol o sicrhau lleihau niwed ystyrion oni bai ei fod yn cyd-fynd â gweithredu i fynd i'r afael â'r galw, atal dadleoli, a mynd i'r afael â sbardunau cymdeithasol a chyd-destunol ehangach cario cyllyll, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc. Mae angen hefyd rhagweld dadleoli i farchnadoedd anffurfiol, ar-lein, neu gymheiriaid-i-gymheiriaid, a sicrhau bod unrhyw gyfundrefn drwyddedu yn cael ei seilio gan safonau cenedlaethol cyson, gallu gorfodi digonol, a gwerthusiad cadarn. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cefnogi galwadau gan Safonau Masnach Cymru am gyfrifoldebau cliriach a mwyl gorfodadwy ar farchnadoedd ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â--gwerthiannau cymheiriaid i gymheiriaid, lle mae monitro a gorfodi yn cyflwyno heriau sylweddol ar hyn o bryd.



Dylid ystyried cwmphas a chyflawni unrhyw drefniadau trwyddedu er mwyn osgoi canlyniadau anfwried, gan gynnwys y potensial i brynu symud tuag at lwybrau llai rheoledig. Dylai ymdrechion i leihau hygyrchedd cyffredinol felly fod yn rhan o ddull atal cymesur. Fel y nodir uchod, bydd cyflwyno trwyddedu yn cael goblygiadau adnoddau i gyrff gorfodi, gan gynnwys Safonau Masnach a'r heddluoedd, waeth ble mae'r cyfrifoldeb. Bydd cyllid digonol a pharhaus yn hanfodol i gefnogi gweithrediad effeithiol.

Dylai trwyddedu hefyd gynnwys gofynion addasrwydd clir, gyda phwerau i wrthod neu gyfyngu ar drwyddedau lle bo hynny'n briodol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y fframwaith yn gweithredu fel diogelwch ystyrion i gefnogi diogelwch cymunedol, yn hytrach nag fel mesur gweinyddol yn unig.

Amdanoch chi: Gwybodaeth am yr Ymatebydd

Helen Hill
Policy and Partnership manager
Wales Safer Communities Network
Helen.hill@wlga.gov.uk